



Gwil Gŵyl yn Cael Hyd i'r Rhodd Fwyaf

DRAMA'R GENI SYDYN



Cyfarwyddiadau

Croeso i'r Drama Geni Sydyn. Rhoddwyd y sgript hon at ei gilydd er mwyn i chi rannu Stori'r Nadolig mewn ffordd hwyliog ond syml. Gallwch gael un ymarfer os oes gennych amser, ond mae wedi'i gynllunio i weithio fel adnodd i'w godi a'i roi ar waith ar unwaith (dyna pam yr enw Drama'r Geni Sydyn!). Mae'r sgript yn seiliedig ar ein llyfr diweddaraf, Gwil Gŵyl yn Cael Hyd i'r Rhodd Fwyaf.



Pennwch y rhannau

(neu os oes gennych rywun sydd wir yn greadigol gallent wneud yr holl rannau, gan efallai newid hetiau ar gyfer pob cymeriad)



Llwyfannu

Adroddwr – dyma'r person fydd â'r rhan fwyaf o'r testun i'w ddarllen. Awgrymwn rywun sy'n gallu darllen yn dda a gyda mynegiant.

Gwil Gŵyl – dylai'r person hwn gael ei chwarae gan rywun sy'n fynegiannol ac sy'n gallu dal brwdfrydedd Gwil am y Nadolig.

Mam/Mair – gallai'r rhannau hyn gael eu rhannu'n unigol, ond er symlrwydd awgrymwn fod un person yn darllen y ddau set o linellau gyda dwy eitem wahanol o ddillad i wahaniaethu pa gymeriad maen nhw'n ei chwarae (e.e. Mam – siwmpwr Nadolig, Mair – siôl las).

Bugail ifanc /Angel /Joseff – fel uchod, gellid eu castio ar wahân, ond rydym yn awgrymu un person i gymryd y tair rhan gyda gwahanol bropiau/dillad ar gyfer pob un (e.e. bugail ifanc – tywel sychu llestri; Angel – eurgylch; Joseff – het galed adeiladwr).

Tri gwahanol le i helpu i ddangos y tri lleoliad (os yw'r lle'n gyfyng gall y rhain i gyd fod yn agos at ei gilydd).

1. Ystafell wely Gwil || llwyfan chwith – ychwanegiad dewisol: matres.
2. Cae'r bugail || canol llwyfan – ychwanegiad dewisol: person wedi ei wisgo fel dafad ar ei bedwar.
3. Y stabl || llwyfan dde – ychwanegiad dewisol: bwrn gwellt, crud/preseb, babi.



Cyflwynwch y cymeriadau

Adroddwr

Croeso i'n gwasanaeth Drama'r Geni Sydyn gwyh. Fy enw i yw _____ a fi yw eich adroddwr Drama'r Geni Sydyn (ceisiwch ddweud hynny bum gwaith yn gyflym!) Nawr, gadewch i ni gwrdd â'n ffrindiau, sy'n mynd i'n helpu ni i deithio drwy ein stori Nadoligaidd. *(Mae pob cymeriad yn cyflwyno eu hunain gyda llinell, ac yna aros yn stond gydag ystum hwyllog.)*
Mae gennym ni'r angel angylaidd ...

Angel

'La la la (canu angylaidd)!!!'

Adroddwr

Y bugail ifanc arbennig ...

Bugail

(canu'r llinell) 'Pan oedd bugeiliaid gyda'u praidd.'

Adroddwr

Mair ryfeddol ...

Mair

'Helo, Mair ydw i, ac rhag ofn eich bod chi'n pendroni ... Oeddwn, roeddwn i'n gwybod!'

Adroddwr

Ein prif gymeriad, yr hwyllog Gwil Gŵyl ...

Gwil

'Dw i'n DWLI ar y Nadolig!!!!'

Adroddwr

Mega Mam ...

Mam

'Dydy o ddim yn cellwair, mae o WIR yn dwli ar y Nadolig!'

Adroddwr

A'r Saer sydd wedi dod at ei goed. Dyma Joseff hapus!

Joseff

'Helo, Joseff ydw i, a chyn i chi ofyn – ie dw i'n gallu addasu capeli!'



Dysgwch symudiad- au i'r gynulleidfa

Adroddwr

(I'R GYNULLEIDFA)

Felly rydyn ni wedi cwrdd â'n cymeriadau a byddwn ni'n gweld mwy ganddynt yn fuan, ond yn gyntaf a allech chi fy helpu i adrodd y stori hon trwy gymryd rhan fel cynulleidfa?

(AROS AM YMATEB)

Gallwch wneud ychydig yn well na hynny! A allech chi fy helpu trwy gymryd rhan fel cynulleidfa?

(AROS AM YMATEB)

Gwych. Bydd rhai geiriau sy'n ymddangos trwy gydol y stori, a byddem wrth ein bodd pe baech yn gwneud rhai symudiadau ar eu cyfer. Pan fyddwch yn clywed y gair ...

DYLYFU GÊN: (gwnewch sŵn dylyfu gên)

CLEP: (gwnewch sŵn clep)

THE SUPERCHARGED MAX 3000:

(Unrhyw syniad beth yw hwn? Wel, y pistol dŵr gorau sy'n bod, felly dywedwch 'Wwww' fel petaech chi'n teimlo'n gyffrous iawn)

YR ANRHEG FWYAF:

(sibrwd 'Waw' fel petaech wedi'ch rhyfeddu)

Dewisol Adroddwr

Ac yn olaf, bydd adeg yn y stori lle gall unrhyw un sydd wedi gwisgo fel cymeriad o'r stori ddod i'r blaen ac ymuno â ni yn y stabl.

Adroddwr

Ydyn ni'n eistedd yn gyfforddus? Ydyn ni'n teimlo'n Nadoligaidd? Rydym yn barod i ddarganfod sut mae Gwil Gŵyl, ar hyn sydd mor sydd mor wych am yr anrheg fwyaf y mae'n dod o hyd iddi, ond yn gyntaf, gadewch i ni weddio.

GWEDDI O'CH DEWIS –

awgrym: Duw, helpa ni i ddarganfod beth yw'r anrheg fwyaf y Nadolig hwn.

CAROL/CÂN – awgrym: 'Draw yn ninas Dafydd Frenin'

SLEID 2

Adroddwr

Un tro roedd bachgen oedd yn dwli ar y Nadolig. A phan dw i'n dweud dwli ar y Nadolig, dw i'n golygu DWLI gyda phrifythrennau D, W, L ac !! Roedd yn dwli ar y Nadolig gymaint fel y byddai'n...

canu 'Sêr y nos yn gwenu' yn y gawod,

bwyta mins peis i frecwast

a gwylio ffilmiau Nadolig yn ystod gwyliau'r haf ... wrth fwyta soch mewn sach!
Roedd yn dwli ar y Nadolig gymaint fe ofynnodd i bobl ei alw'n 'Gwil Gŵyl' (er mai Osian oedd ei enw go iawn).

Mam

'Pam wyt ti'n dwli ar y Nadolig gymaint, Gwil?'



SLEID 3

Adroddwr
Gwil

ochneidiodd Mam, yn rhwystredig bod yr enw 'Gwil' yn dechrau glynu.

'Dyna'r peth gorau un, Mam!
Rydyn ni'n gwneud llawer o siopa, ac yn cael llwyth o felysion .
Mae Dad yn gyrru am hydoedd i gael y goeden fwyaf.
Rydyn ni'n gwisgo ein pyjamas ac yn gwylio rhaglenni Nadoligaidd.
Ac ar Ddydd Nadolig, mae yna anrhegion i mi!

Adroddwr

meddai Gwil, wrth iddo chwifio ei restr Nadolig a phwyntio at **THE SUPERCHARGED MAX 3000**
(*'Wwww'* – YMATEB Y GYNULLEIDFA)



SLEID 4

Mam

'Wel! Dw i'n gwybod dy fod yn dwli ar y Nadolig, ond beth am y Nadolig cyntaf un, Gwil?'

Gwil

'Y Nadolig cyntaf un?'

Adroddwr

Synfyfyriondd Gwil.

Mam

'Ie, y Geni ym Methlehem? Cofia, buest ti ynddo'r llynedd.'

Gwil

'Yn bendant doeddwn i ddim ym Methlehem, byddwn i'n cofio hynny.'

Mam

'Wel, na, doeddet ti ddim yn stori'r Geni mewn gwirionedd. Roedd hynny 3,000 o filltiroedd i ffwrdd a 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Ond fe WNEST ti chwarae rhan bugail yn nrama geni'r ysgol, yn ... (*RHOWCH ENW'R YSGOL/LLE*).'

Gwil

'O ie! Fi oedd y bugail, ond roeddwn i wir eisiau bod yn Myfyr, yr un a roddodd Aur?'

SLEID 5

Mam

'Mm ... y doethion a roddodd Myrr, Thus ac Aur rwy'ti'n ei olygu!'

Gwil

'Yn union!!'

Adroddwr

meddai Gwil, wrth iddo feddwl am **THE SUPERCHARGED MAX 3000**, ond mewn aur! (*'Wwww'* – YMATEB Y GYNULLEIDFA)

Mam

'Wyddost ti fod mwy i'r stori nag anrhegion yn unig, Gwil? A dweud y gwir – mae'n stori am yr anrheg fwyaf un! 'Dychmyga'r olygfa, Gwil – mae bugeiliaid yn gwylio eu praidd gyda'r nos...'

CAROL/CÂN YMA –
awgrym: *'Pan oedd bugeiliaid gyda'u praidd'*

SLEID 6

Adroddwr

DYLYFU GÊN ... (YMATEB Y GYNULLEIDFA) ac wrth i Mam ddechrau adrodd y stori, dechreuodd Gwil bendwmpian – caeodd ei lygaid i ddarlunio'r bugeiliaid ... a'u defaid. Dechreuodd eu cyfri fesul un ac yna ...

2,000 O FLYNYDDOEDD YN ÔL – RHYWLE GER BETHLEHEM
CLEP! (YMATEB Y GYNULLEIDFA)



Gwil

Adroddwr

Bugail

Adroddwr

Bugail

Gwil

Adroddwr

Bugail

Gwil

Adroddwr

Bugail

Adroddwr

‘AW! Fy mhen!’

meddai Gwil, wrth iddo ddeffro'n sydyn, a'i wyneb wedi'i sodro mewn cae o fwd!

‘Wps! Wyt ti'n iawn?’

gofynnodd Bugail ifanc.

‘Mae'n debyg i ti hepian, disgyn drosodd a tharo dy ben!’

‘Ym ... ble ydw i?’

gofynnodd Gwil.

‘Dyna gwestiwn gwirion. Rwy'ti mewn cae!’

‘Ond pa gae?’

gofynnodd Gwil, gan feddwl tybed a aeth i grwydro i gae ei gymydog eto.

‘Dim ond y cae gorau gyda'r defaid gorau ym Methlehem i gyd!’

meddai'r bugail ifanc.



Gwil

Adroddwr

Gwil

Adroddwr

Bugail

Adroddwr

Be ... Be ... Bethlehem?’

bustachodd Gwil yn gegrwth, gan ei fod yn eithaf sicr ei fod yn eistedd gartref yn Wrecsam (*neu rhowch eich tref eich hun*) bum eiliad yn ôl.

‘Aros, rwy'ti'n fu ... fu ... bugail!? O'r Ge ... Ge ... Geni!?’

meddai Gwil yn geciog, gan wasgu boch y bachgen i sicrhau ei fod yn berson go iawn.

‘Hei! Rho'r gorau i wasgu fy mochau!’

meddai'r bugail ifanc. Ni allai Gwil gredu hyn – roedd 3000 o filltiroedd a 2000 o flynyddoedd i ffwrdd o'i gartref. Roedd o wir yng nghanol hanes y Nadolig cyntaf un! Cyn i Gwil allu meddwl yn ôl am ei ddrama geni yn yr ysgol a chofio beth ddigwyddodd nesaf, ymddangosodd angel yn yr awyr!!!

CAROL/CÂN YMA –
awgrym: ‘Clywch lu'r nef yn seinio'n un’

Roedd yr angel yn fwy gwych ac aruthrol nag yr oedd Gwil erioed wedi'i ddychmygu, yn disgleirio mor llachar, ac yn bendant doedd dim tinsel yn y golwg.

‘Paid ag ofni,’ meddai'r angel! ‘Newyddion da sydd gen i, am yr **ANRHEG FWYAF** (‘waw’ – *YMATEB Y GYNULLEIDFA*) i bawb!’Nid siarad am **THE SUPERCHARGED MAX 3000** (‘Wwwww!’ – *YMATEB Y GYNULLEIDFA*) oedd yr angel, ond am faban bach newydd, mab Duw ei hun a'r anrheg fwyaf erioed. Rhywun sydd wedi dod i'n hachub ni rhag y pethau blêr sydd wedi ein brifo, ac i faddau i ni am y pethau cas rydyn ni'n eu gwneud i eraill.

‘Pam wyt ti'n dweud wrtha i? Dw i'n neb arbennig, dim ond bugail ifanc ydw i,’

Meddai'r bugail ifanc.

‘Dwyt ti ddim yn neb. Mae gennyt ti wahoddiad personol i gwrdd â'r un mwyaf arbennig. Fe weli di ef wedi'i lapio'n dynn, a'i ben yn gorffwys ar glustog o wellt.’

Adroddwr

Angel

Adroddwr



Bugail

Adroddwr

Angel



Adroddwr

Yna'n sydyn, ymunwyd â'r angel gan fyrrd o angylion, a'r cyfan yn canu mewn harmoni perffaith. Roedd Gwil yn meddwl bod unawd Sera Jones) neu enwch gerddor lleol) o 'O Sanctaidd Nos' yn dda, ond dyma'r sŵn gorau a glywodd erioed! Ond nid oedd yn agos cystal â'r hyn oedd yn aros amdanynt mewn preseb.

(GWIL A'R BUGAIL YN MEIMIO SYMUDIADAU I GYD-FYND Â'R ADRODDWR ...)

Rhuthrodd Gwil a'r Bugail ifanc drwy'r mwd, *(MEIMIO)*
llamu dros greigiau a neidio dros nentydd, *(MEIMIO)*
nes cyrraedd o'r diwedd rhan isaf hen dŷ carreg. *(MEIMIO)*

*CAROL/CÂN YMA – awgrym: Daeth Crist i'n plith'
(RHYNGWEITHIO DEWISOL – Yn ystod y gân, anogwch y plant sydd wedi eu gwisgo fel cymeriadau stori'r Geni i ddod lawr i'r blaen i 'ymuno â Gwil a'r bugail ifanc ar gyfer yr olygfa olaf'. Os yw'n well gennych beidio â gwneud hyn, ewch ymlaen i'r darn isod 'Yn nerfus, agorodd Gwil a'r bugail ifanc...')*

Dewisol
Adroddwr

Nawr mae Gwil a'r bugail ifanc wedi cyrraedd yr hen dŷ cerrig. Hoffech chi ymuno â nhw a darganfod beth sydd y tu ôl i'r hen ddrws gwichlyd? Os ydych chi wedi eich gwisgo fel cymeriadau stori'r geni, dewch i lawr i'r blaen – dylech chi wir fod yn rhan o'r stori. *(ARHOSWCH I'R PLANT SETLO YN Y BLAEN ... GWNEWCH SYLWAM BA MOR DDA MAEN NHW'N EDRYCH.)* Lle oedden ni yn y stori? O ie!
Mae Gwil a'r bugail ifanc y tu allan i'r hen dŷ cerrig, ar fin mynd i mewn!

Adroddwr

Yn nerfus, agorodd Gwil a'r bugail ifanc y drws gwichlyd ac o flaen eu llygaid roedd ... Mair, Joseff a'r baban Iesu annwyl wedi'i lapio'n dynn, a'i ben yn gorffwys ar glustog o wellt.

Mair

'Wel, helo, chi'ch dau,'

Adroddwr

meddai Mair, gan wenu o glust i glust.

Joseff

'Rwy'n meddwl bod rhywun eisiau dweud helo!'

Adroddwr

ychwanegodd Joseff, gan amneidio ar y bechgyn i gael golwg agosach ar Iesu. Ac wrth agosáu gwelsant y baban Iesu.

Gwil a'r Bugail Adroddwr

'Waw!'

sibrydodd y bechgyn, wrth i'r ddau benlinio o flaen Iesu mewn rhyfeddod pur.

Gwil

'Doeddwn i ddim yn gwybod, ond ti yn wir yw'r un mwyaf arbennig, on'd e?'

Bugail

Hwn yw'r **ANRHEG FWYAF** erioed!' ('waw' – *YMATEB Y GYNULLEIDFA*)

Mair

'Hoffech chi afael ynddo?'

Adroddwr

gofynnodd Mair.

Gwil

'Fi? Dim peryg – dw i'n llawer rhy flêr i ddal yr **ANRHEG FWYAF** mewn hanes.'
(*'waw' – YMATEB Y GYNULLEIDFA*)

Mair

'Ond nid yw'n ofni ein pethau blêr. Fe ddaeth i'n hachub o'n pethau blêr,'

Adroddwr

meddai Mair, wrth iddi wenu a glanhau'r mwd oddi ar wyneb Gwil. Yna cofiodd Gwil a'r bugail yr hyn a ddywedodd yr angel. Daeth Iesu i'n hachub ni rhag y pethau blêr sy'n ein brifo, a maddau inni am y pethau cas a wnawn i eraill.

Bugail

'Ond sut? Dim ond babi ydy o!'

Mair

'Nid dim ond unrhyw fabi, mab Duw yw hwn. Ac un diwrnod bydd yn tyfu i fyny ac yn dangos i ni sut.'

Gwil

'Ond dydw i ddim yn teimlo fy mod yn ei haeddu.'

Joseff

'Wel ...'

Adroddwr

meddai Joseff â gwên

Joseff

'... ni fyddai'n anrheg pe byddet ti, na fyddai?'

Gwil

'Waw. Mae hynny'n llawer gwell na **THE SUPERCHARGED MAX 3000**.'
(*'Wwww' – YMATEB Y GYNULLEIDFA*)

Bugail

'Wel, ni allaf gadw hwn i mi fy hun UNRHYW faint yn rhagor!'

Adroddwr

meddai'r bugail ifanc, wrth iddo neidio ar ei draed, carlamu heibio'r preseb a gwibio allan drwy'r hen ddrws gwichlyd, gan ddweud wrth bawb am **YR ANRHEG FWYAF ERIOED**. (*'waw' – YMATEB Y GYNULLEIDFA*)

Gwil

'Aros amdana i!'

Adroddwr

meddai Gwil, wrth iddo hopian a rhuthro ond wedyn ... baglu wrth y drws a syrthio ar ei ben ... **CLEP!!!** (*YMATEB Y GYNULLEIDFA*)

Adroddwr

Yn sydyn, agorodd Gwil ei lygaid ac roedd yn ôl adref, fel yr oedd Mam yn gorffen y stori.

Mam

'A dyna hanes y Nadolig cyntaf un. Y diwedd.'

Gwil

'Waw Mam. Dyna. Oedd. Y. Peth. Gorau. Un. ERIOED!'

**Mam**

'Wyt ti wedi taro dy ben, Gwil?'

Adroddwr

meddai Mam.

Gwil

'Ym, pam wyt ti'n gofyn Mam?'

Adroddwr

meddai Gwil.

Mam

'Wel, dwi'n gwybod fy mod i'n adrodd straeon da, ond y tro hwn roeddet ti wedi dy gyfareddu! Rwy'n meddwl efallai y bydd rhywun yn cael **THE SUPERCHARGED MAX 3000** wedi'r cyfan.' (*'Wwww' – YMATEB Y GYNULLEIDFA*)

Adroddwr

meddai Mam gyda winc, wrth iddi sychu ychydig o fwd a welodd ar wyneb Gwil.

Gwil

'Diolch Mam. Byddai hynny'n wych, ond gallaf feddwl am anrheg hyd yn oed gwell y Nadolig hwn. Yr un a ddaeth i'n hachub ni o'n pethau blêr. Mewn gwirionedd, ef yw'r **ANRHEG FWYAF** erioed.' (*'Waw' – YMATEB Y GYNULLEIDFA*)

Adroddwr

meddai Gwil. Gweddiwn.

GWEDDI – awgrym: O Dduw, boed i ni ni ddarganfod mai o dan bapur lapio Nadolig y mae'r anrheg fwyaf welodd y byd yma erioed – anrheg o faddeuant, wedi ei lapio mewn cariad, ym mherson Iesu. Amen.

CÂN / CAROL – awgrym: 'O dewch, ffyddloniaid'/'O dewch, chi sy'n anffyddlon